# Newidiadau arfaethedig i'r marciau iechyd ac adnabod

Statws: Wedi dod i ben
Dyddiad lansio: 27 Gorffennaf 2018
Dyddiad cau: 27 Awst 2018

## Yngl?n â'r ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghoriad hwn o ddiddordeb i awdurdodau lleol a sefydliadau cymeradwy yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

### Pwnc ymgynghori

Mae manylion perthynas y Deyrnas Unedig (DU) gyda'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn y dyfodol yn parhau i fod yn destun trafodaethau. Fodd bynnag, mae'r ASB yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar nifer o faterion manwl lle mae'n amlwg y bydd angen newid i arferion busnesau, beth bynnag fo canlyniad y trafodaethau hynny. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â newidiadau i farciau iechyd ac adnabod ar rai cynhyrchion bwyd penodol.

### Diben yr ymgynghoriad

Pan fydd y DU yn ymadael â'r UE, ni chaniateir y llythrennau 'EU' neu 'EC' sydd ar y marciau presennol. Bydd y newid hwn yn effeithio ar bob sefydliad cymeradwy. Er mwyn darparu ar gyfer y newid hwn, mae'r ASB yn bwriadu diwygio'r marc iechyd ac adnabod presennol trwy gael gwared ar y rhagosodiad 'EU' neu 'EC'.

Bydd dimensiynau a ffurf y marciau iechyd ac adnabod presennol yn aros yr un fath, gan gynnwys y talfyriad "UK" sy'n cynrychioli Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd yn parhau i fod yn un marc sy'n cynnwys rhif cymeradwyo'r sefydliad, ni fydd y rhif yn newid chwaith.

Bydd y diweddariad hwn yn sicrhau bod cynnyrch y DU yn parhau i arddangos label priodol sy'n dangos yn glir bod y cynnyrch wedi bod yn destun y gwiriadau iechyd a lles llym a fydd yn parhau ar ôl i'r DU adael yr UE.

Diben yr ymgynghoriad hwn yw cael barn a gwybodaeth bellach gan y diwydiant ar y newidiadau arfaethedig hyn a'u heffaith bosibl.

### England, Northern Ireland and Wales

PDF
Gweld Llythyr i randdeiliaid: Newidiadau arfaethedig i'r marciau iechyd ac adnabod as PDF(Open in a new window) (103.27 KB)

## Cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion

Y bwriad yw cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ar y dudalen hon o fewn tri mis i ddiwedd yr ymgynghoriad. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am sut yr ydym yn trin data a ddarperir mewn ymateb i ymgynghoriadau yn ein hysbysiad preifatrwydd am ymgynghoriadau.

## Mwy o wybodaeth

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori llywodraeth y DU. Os oes Asesiad Effaith wedi'i lunio, bydd wedi'i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori. Os na ddarparwyd Asesiad Effaith, nodir y rheswm dros hynny y ddogfen ymgynghori.